John Duns Scotus *c.*1265–1308

Mynach Ffransisgaidd, meddyliwr a diwinydd Catholig

Ganed John Duns Scotus yn Duns, yr Alban, rhyw 15 milltir o Berwick oddeutu 1265. Ymunodd â'r brodyr Ffransisgaidd (Y Brodyr Llwyd) rhwng 1278 a 1279 ac fe'i hordeiniwyd yn offeiriad yn Northampton ar 17 Mawrth 1291 gan esgob Lincoln, Oliver Sutton. Ni wyddom fawr ddim arall ffeithiol am ei fywyd cynnar er bod rhai chwedlau amdano. Ar adeg ei ordeinio fe ymddengys ei fod yn astudio yn Rhydychen lle y bu hyd 1293. Yna fe'i hanfonwyd i Baris am hyfforddiant pellach ac arhosodd yno hyd 1296. Rhwng 1297 a 1300 roedd yng Nghaergrawnt ac yna dychwelodd i Rydychen. Yn y ddau goleg bu'n darlithio ar y *Sentences* gan Peter Lombard, pedwar llyfr a gyflwynai sylfeini'r ffydd Gristnogol. Erbyn 1301 roedd yn feistr mewn diwinyddiaeth yn Rhydychen wedi iddo dreulio'r tair blynedd ar ddeg disgwyliedig yn astudio. Ym 1302 fe'i hanfonwyd i ddysgu ym Mhrifysgol Paris lle y darlithiodd eto ar y *Sentences,* ond bu'n rhaid iddo ddychwelyd i Rydychen ym Mehefin 1303 gan ei fod yn un o bedwar ugain o fynaich a wrthodai gefnogi brenin Ffrainc, Philippe IV, yn ei ddadl gyda'r Pab Boniface VIII ynglŷn â threthu offeiriaid Ffrengig. Wedi i bethau dawelu dychwelodd i Baris lle y derbyniodd ddoethuriaeth ym 1305. Fe'i penodwyd i ddysgu yng Nghwlen ym 1307 ym mynachlog y Ffransisgiaid.

Ysgrifennodd lawer iawn yn ystod ei oes. Ei weithiau cynharaf, a ysgrifennwyd yn Lladin, oedd y *parva logicalia* (gwaith ar resymeg) a chwestiynau ar *Isagoge* gan Porphyry (athronydd o Phoenicia) a *Categories, Peri hermeneias* gan Aristotlys (athronydd Groegaidd o'r bedwaredd ganrif cyn Crist). Y mae hefyd lawysgrifau pwysig o'i ddarlithoedd ar y *Sentences*. Cyhoeddwyd deuddeg cyfrol fawr o'i weithiau ym 1639 gan Wadding yn Lyons. Yn ei weithiau datblygodd syniadaeth am Ddiwinyddiaeth Naturiol lle y ceisir prawf am fodolaeth Duw ar wahân i'r datguddiad ohono Ef ei hun. Trafododd hefyd yn fanwl yr athrawiaeth o Dduw fel bod tragwyddol a metaffiseg (cangen o athroniaeth sydd yn ymwneud â natur realaeth). Roedd yn ysgolhaig o

fri ac yn feddyliwr dwfn a dwys oedd yn ymdrin â materion yn eithriadol o fanwl.

Wedi ei farwolaeth mabwysiadwyd llawer o'i athrawiaethau yn enwedig ymhlith ei urdd ei hun, y Ffransisgiaid. Fe'i hystyrid yn ffigwr pwysig yn natblygiad diwinyddiaeth a methodoleg. Ystyrir Thomas Acwin yn brif ddiwinydd Urdd y Dominiciaid a John Duns Scotus yn brif ddiwinydd y Ffransisgaid, urdd Ffransis o Assisi.

Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg daeth disgyblion Duns dan ymosodiad am orfanylder a hollti blew. Mabwysiadwyd ei enw yn Saesneg i olygu rhywun twp – 'dunce'. Bu farw ar 8 Tachwedd 1308 ac fe'i claddwyd yn eglwys y Ffransisgiaid yng Nghwlen. Fe'i gwnaed yn sant gan y Pab John Paul II ym 1993 a chofir amdano bob blwyddyn ar 8 Tachwedd.